| | | |
|---|---|---|
| **CYFARFOD**<br><br>**PWYLLGOR CRAFFU - YR AMGYLCHEDD** | | |
| **DYDDIAD** | | **Medi 16eg 2008** |
| **TEITL** | | **ADOLYGIAD O DDARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS** |
| **PWRPAS** | **1. Pam fod yr adroddiad gerbron?** | **I ystyried cynigion gweithgor gwella ar newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, er canfod arbedion refeniw o £100,00 y flwyddyn** |
| | **2. Beth yw'r mater i'w graffu?** | **Y newidiadau mae'r gweithgor yn ei gynnig, a'r arbedion fuasai yn deillio o hynny.** |
| **ARGYMHELLIAD** | | **Derbyn yr argymhelliad sydd ar ddiwedd yr adroddiad** |
| **LLWYBR ADRODD – beth yw'r cam nesaf** | | **Adrodd i Fwrdd y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor** |
| **AWDUR** | | **Peter Eifion Evans**<br>**Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad, a**<br>**Gwyn Morris Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | | **Y Cynghorydd W. Gareth Roberts** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor yma ar 6ed o Ragfyr, 2007, cytunwyd y dylid lleihau'r gyllideb refeniw ar gyfer y gwasanaeth toiledau cyhoeddus o £100,000 y flwyddyn. Cafodd hynny ei gymryd i ystyriaeth gan y Cyngor wrth osod y gyllideb ar gyfer 2008/09. Ymhellach, nodwyd gan y Pwyllgor y dylid ystyried clustnodi peth arian i gyfarfod costau rhaglen gyfyng o welliannau. Bydd felly angen cwtogi tua £130,000 i £150,000 o'r gyllideb refeniw i gyfarfod yr anghenion hynny.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 12fed o Fehefin elenni, enwebodd y Pwyllgor aelodau i eistedd ar weithgor i ystyried newidiadau yn nhrefniadau'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus er canfod arbedion o £100,000 yng nghostau'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno ymateb y gweithgor i'r dasg.

## 2. MAES GWAITH Y GWEITHGOR

2.1 Mae'r gweithgor wedi rhoddi sylw i'r canlynol :-

- Adolygu'r gwaith oedd wedi ei wneud yn dilyn y Pwyllgor ar 6ed o Ragfyr
- Sefydlu trefn i flaenoriaethu'r toiledau cyhoeddus sydd dan reolaeth y Cyngor
- Y sylwadau a gafwyd drwy'r broses ymgynghori gydag aelodau lleol a chynghorau cymuned/tref ynghylch newidiadau oedd dan ystyriaeth yn eu hardaloedd hwy.
- Ystyried sut y gellir canfod yr arbedion sy'n angenrheidiol ar gyfer 2008/09, ac o 2009/10 ymlaen.
- Materion pellach i roddi sylw iddynt i'r dyfodol

## 3. CANLYNIADAU GWAITH Y GWEITHGOR

3.1 <u>Canfod Arbedion</u>

3.1.1 Yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma, fe welir y tablau canlynol :-

- Tabl 1, sy'n rhestru'r toiledau hynny mae'r gweithgor o'r farn y dylid ystyried eu cau.
- Tabl 2, sy'n rhestru'r toiledau hynny mae'r gweithgor o'r farn y dylid eu newid o fod ar agor drwy'r flwyddyn i fod ar agor yn dymhorol yn unig.
- Tabl 3, sy'n rhestru'r lleoliadau lle dylai trafodaethau gymryd lle ynghylch y posibilrwydd o weithio gyda chynghorau cymuned / tref lleol i ddarparu gwasanaeth i'r dyfodol. Os na fydd y trafodaethau yn datblygu, barn y gweithgor yw y dylid ystyried cau'r toiledau dan sylw o 1af Ebrill 2009.
- Tabl 4, sy'n tynnu cynnwys tablau 1, 2 a 3 at ei gilydd, ac yn dangos y sefyllfa fel y buasai o 1af Ebrill 2009 ymlaen.

3.1.2 Canlyniad y newidiadau awgrymir yn y tablau fuasai i ganfod arbediad yng nghyllideb refeniw'r gwasanaeth o £36157 ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, a £133,017 o 2009/10 ymlaen.

3.1.3 Mae'r arbediad ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn ddibynnol ar wireddu'r newidiadau erbyn 31 Hydref. Buasai unrhyw oedi yn lleihau'r arbediad ar gael eleni ac yn creu problemau i'r gwasanaeth. Mae'r ffigwr arbediad o £133,017 ar gyfer 2009/10 ymlaen yn disgyn oddi fewn y targed a nodir ym Mhwynt 1.1

3.2 <u>Blaenoriaethu</u>

3.2.1 Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yma yn dangos y broses a ddefnyddiwyd i geisio blaenoriaethu'r toiledau sydd dan reolaeth y Cyngor. Fe welir i nifer o ffactorau gael eu hystyried mewn perthynas â natur a lefel y defnydd o'r toiledau, gan ddefnyddio'r broses i ddatblygu sgôr ar gyfer pob un o'r toiledau.

3.2.2. Dylid nodi nad oes gwybodaeth ar gael i ddangos y nifer o ddefnyddwyr sy'n ymweld â'n toiledau. Gyda nifer mor uchel o doiledau, ni fuasai yn ymarferol i fesur hynny. Defnyddiwyd felly gwybodaeth am y defnydd o ddŵr a gwybodaeth gan y glanhawyr fel dangosyddion o'r lefel defnydd.

3.2.3 Mae'r gweithgor wedi canolbwyntio ar y toiledau sydd wedi sgorio o 1 i 4 drwy'r broses flaenoriaethu wrth ddatblygu'r awgrymiadau a welir yn y tablau yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Mewn nifer fechan iawn o achosion, penderfynwyd peidio dilyn y drefn werthuso i osgoi creu gormod o newidiadau mewn un ardal.

3.2.4 Mae'r tabl yn Atodiad 2 hefyd yn rhoddi gwybodaeth am gostau rhedeg y toiledau. Mae'r costau glanhau yn adlewyrchu'r cyllid a roddir i uned waith mewnol wneud y gwaith glanhau, tra mae costau trydan a dŵr yn dangos y costau ar gyfartaledd ar gyfer y gwasanaethau hynny. Mae costau cynnal a chadw ar adeilad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, a defnyddiwyd ffigwr cyfartaledd yma eto.

3.3 <u>Ymgynghori</u>

3.3.1 Ysgrifennwyd at bob aelod a chyngor cymuned / tref allai fod yn wynebu newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn eu hardal hwy. Gwahoddwyd hwy i roddi sylwadau ar y newidiadau dan ystyriaeth, ac yn benodol ar y pwyntiau canlynol :-

- Unrhyw ffactorau lleol y dymunent ei nodi mewn perthynas â'r gwasanaeth
- Unrhyw wybodaeth leol allai awgrymu y buasai eraill yn barod i ystyried cymryd cyfrifoldeb am reoli toiled.

3.3.2 Wedi'r etholiad ym mis Mai, ysgrifennwyd hefyd at yr aelodau newydd yn cynrychioli'r wardiau hynny o Gyngor Gwynedd lle 'roedd newidiadau dan sylw.

3.3.3 Gofynnodd rhai cynghorau cymuned / tref ac aelodau am wybodaeth ynghylch costau rhedeg toiledau cyhoeddus yn eu hardal hwy. Rhoddwyd iddynt wybodaeth am gostau fel y gwelir yn Atodiad 2.

3.3.4 Fe welir yr ymatebion a gafwyd i'r broses ymgynghori yn Atodiad 3 i'r adroddiad yma. Mae'r atodiad hefyd yn dangos sylwadau aelodau'r gweithgor ar gyfer pob toiled lle awgrymir newid.

## 4. LLYWODRAETH Y CYNULLIAD

4.1 Efallai i'r aelodau glywed fod y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno cynllun i hyrwyddo awdurdodau lleol i weithio gyda busnesau i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau.

4.2 Nid yw'r gwasanaeth wedi derbyn unrhyw fanylion am y cynllun yma, nac am unrhyw ofynion neu ganllawiau cysylltiedig. O ganlyniad, nid yw cynllun y Cynulliad yn cynnig ateb i'r angen i wneud arbedion nawr ar y gwasanaeth toiledau cyhoeddus a rhaid symud ymlaen i ystyried y newidiadau awgrymir gan y gweithgor. Wrth gwrs, mae'n debygol y bydd angen i'r gweithgor ystyried y cynllun pan ddaw gwybodaeth i law.

## 5. GWAITH PELLACH

5.1 Mae'r gweithgor wedi rhoddi sylw i'r brif dasg a roddwyd iddo, ond yn dymuno mynd ymlaen i edrych ar faterion megis codi ffi am ddefnydd o doiledau, partneriaethu gyda busnesau neu gyrff lleol, a man addasiadau i'r cyfnodau agor tymhorol, fel ffyrdd o ganfod arbedion i'r dyfodol.

## 6. CASGLIAD

6.1 Mae'r gweithgor wedi edrych yn fanwl ar yr angen i ganfod arbedion ar fyrder gyda'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, ac wedi gwneud cynigion i wireddu hynny. Mae'r gweithgor hefyd o'r farn y dylai edrych ar faterion pellach, i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.

## 7. ARGYMHELLIAD

7.1 Argymhellir fod y Pwyllgor yn :-

- cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus awgrymir gan y gweithgor, ac a ddangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth
- cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach, i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol